



Anghenion Addysgol Arbennig

Paratoi datganiad achos Canllaw i Awdurdodau Lleol

Llinell Gymorth: 01597 829800

E-bost: sentw@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: www.sentw.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ynghylch y cyfarwyddyd hwn

Nod y canllaw hwn yw darparu gwybodaeth ddefnyddiol i swyddogion yr Awdurdod Lleol am baratoi datganiad achos lle mae Apêl Anghenion Addysgol Arbennig wedi cael ei gwneud i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Nid yw'n ganllaw cyflawn gan y bydd ffeithiau pob achos yn wahanol. Nid yw ychwaith yn bwriadu bod yn arweiniad i sut bydd y Ddeddf Addysg a'r Codau Ymarfer yn berthnasol i unrhyw set benodol o amgylchiadau.

Dylech gysylltu â TAAAC os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses. Ni allwn roi cyngor cyfreithiol na helpu gyda pharatoi apêl.

Yr Amcan Gor-redol a'r Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Amcan pwysicaf y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'n ddisgwyliad gan y Tribiwnlys y bydd rhieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a chyrrff cyfrifol, yn helpu i hybu'r amcan gor-redol drwy gydweithio â'i gilydd a'r Tribiwnlys er mwyn symud ymlaen gyda'r apêl neu'r cais.

Beth sy'n digwydd unwaith y gwneir apêl i TAAAC?

Os gallwn ymdrin â'r apêl, byddwn yn ei **chofrestru**. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ysgrifennu at y swyddog Awdurdod Lleol a enwir ac yn amgáu copi o'r apêl. Byddwn hefyd yn dweud wrthyf am y terfyn amser, 30 diwrnod gwaith, ar gyfer anfon **datganiad achos** yr Awdurdod Lleol atom ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y dymuna'r Awdurdod Lleol ddibynnu arni. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at y rhieni i roi'r un faint o amser iddyn nhw ar gyfer anfon eu datganiad achos.

Ar ddiwedd cyfnod y datganiad achos, byddwn yn gofalu bod yr Awdurdod Lleol a'r rhieni yn gweld datganiad achos ei gilydd. Byddwn yn rhoi set o'r holl bapurau gyda'r tudalennau wedi'u rhifo i'r Awdurdod Lleol a'r rhiant y bydd angen i chi ddod â nhw i'r gwrandawriad.

Byddwn hefyd yn trefnu **gwrandawriad**. Yn y gwrandawriad bydd panel y tribiwnlys yn ystyried yr holl dystiolaeth ysgrifenedig, yn ogystal ag unrhyw beth sydd gan yr Awdurdod Lleol, y rhieni a'ch tystion priodol i'w ddweud.

Byddwn yn anelu at gyhoeddi ein **penderfyniad** o fewn tua 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad.

Mae'r broses gyfan, o'r adeg y byddwn yn derbyn cais i pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, fel arfer yn cymryd tua phedwar i bum mis. Weithiau gall gymryd mwy o amser os yw'n achos cymhleth iawn.

Rhoi gwybod i ni am yr achos

Cyn y gwrandawriad, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol anfon datganiad achos atom yn ysgrifenedig. Dylai datganiad achos yr Awdurdod Lleol nodi'r ffeithiau perthnasol fel y gwyddoch amdanynt.

Rhaid i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y dymunwch ei chyflwyno fod yn y datganiad achos neu gael ei hanfon gydag ef. Gall eich datganiad achos hefyd nodi'r dadleuon y dymunwch eu cyflwyno. Dylech fanylu cymaint ag y credwch sy'n angenrheidiol i wneud eich achos.

Yn y gwrandawriad, bydd yr Awdurdod Lleol ac unrhyw dystion a fydd yn dod gyda chi yn cael cyfle i roi eu barn am yr apêl ac yn esbonio'r ffeithiau l aelodau'r Tribiwnlys.

Mae'r dystiolaeth a anfonwch atom cyn y gwrandawriad a beth ydych yn ei ddweud ar y diwrnod yr un mor bwysig i ni. Ni all penderfyniad y Tribiwnlys ond ystyried y dystiolaeth y mae'r ALI a'r rhiant yn ei rhoi i ni. Os ydych am i'r Tribiwnlys ystyried rhywbeth, gofalwch ei fod yn y dystiolaeth.

Anfon tystiolaeth

Wrth baratoi eich datganiad achos helpwch ni drwy sicrhau:

- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai papurau fod yn gopïau A4 ar un ochr i'r papur a heb eu styffylu,
- dylai'r papurau fod mewn du a gwyn. Ni allwn wneud copïau lliw felly rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud llungopi o unrhyw lyfrynnau, megis prospectws yr ysgol ac anfon hwn i mewn,
- peidiwch ag ychwanegu eich rhifau tudalen eich hun,
- cynhwyswch restr cynnwys ar gyfer yr holl adroddiadau a'r dystiolaeth yr ydych yn eu cyflwyno gyda'ch datganiad achos, er enghraifft: adroddiad y Seicolegydd Addysg dyddiedig 5 Mawrth 2012.
- peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol, dim ond llungopïau o'r rhai gwreiddiol.
-

Terfyn amser ar gyfer datganiadau achos

Mae terfyn amser llym erbyn pryd y mae'n rhaid i ni dderbyn eich datganiad achos ac unrhyw dystiolaeth arall. Byddwn yn ysgrifennu at swyddog enwebedig yr Awdurdod Lleol i ddweud wrthy ch pryd mae hyn. Fel arfer, bydd gennych 30 diwrnod gwaith.

Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno anfon fideos, recordiadau a ffotograffau atom. Mae'r un terfyn amser yn berthnasol ar gyfer eu hanfon l mewn, ond anfonwch bum copi o unrhyw recordiad a ffotograff atom os gwelwch yn dda. Anfonwch ddeunydd fideo a sain ar fformatau DVD a CD yn unig atom os gwelwch yn dda. Dylech geisio cadw tystiolaeth wedi'i recordio mor fyr ag y bo modd.

Os yw'r Awdurdod Lleol yn methu ag anfon ei ddatganiad achos neu nad ydym yn ei dderbyn o fewn y terfyn amser, efallai y byddwn yn penderfynu ar yr apêl ar y papurau a gyflwynwyd gan y rhiant yn unig neu yn cynnal gwrandawriad na fydd yr Awdurdod Lleol efallai yn gallu bod yn bresennol ynddo.

Beth sy'n ofynnol yn ôl rheoliadau'r Tribiwnlys

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gyflwyno'r canlynol fel eu bod yn cael eu derbyn yn swyddfa TAAAC cyn diwedd cyfnod y datganiad achos:

- copi o'r llythyr penderfyniad sy'n cael ei herio,
- os oes gan y plentyn un, copi o ddatganiad anghenion addysgol arbennig y plentyn, unrhyw ddogfennaeth sydd ynghlwm wrth y datganiad neu sy'n ffurfio rhan ohono a chopi o'r adolygiad diweddaraf.
- yr holl dystiolaeth y dibynnir arni na chafodd ei chyflwyno eto,
- datganiad achos,
 - rhaid i'r datganiad achos ddatgan a yw'r Awdurdod Lleol yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl,
 - rhaid i'r datganiad achos gael ei lofnodi gan berson sydd wedi'i awdurdodi i lofnodi dogfennau o'r fath ar ran yr Awdurdod Lleol.

Os yw'r Awdurdod Lleol yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl, rhaid i'r datganiad achos ddatgan:

- y rhesymau y mae'r apêl neu unrhyw ran o'r apêl yn cael ei gwrthwynebu,
- crynodeb o'r ffeithiau,
- y rhesymau dros y penderfyniad sy'n cael ei herio,
- y camau, os o gwbl, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod,
- barn y plentyn ynghylch y materion a godwyd yn yr apêl, **neu**
- esboniad pam nad yw'r Awdurdod Lleol wedi gofyn beth yw barn y plentyn,
- enw a chyfeiriad cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol,
- y cyfeiriad y dylid anfon dogfennau ar gyfer yr Awdurdod Lleol iddo.

Gwybodaeth y mae angen i chi ddweud wrthym amdani

Anghenion addysgol arbennig y plentyn

Mae anawsterau dysgu neu anabledau'r plentyn yn bwysig iawn i'r achos. Bydd panel y Tribiwnlys yn dymuno gweld pob adroddiad arbenigol diweddar a pherthnasol sydd ar gael.

Hanes yr achos

Bydd penderfyniad y Tribiwnlys yn ymwneud ag addysg y plentyn yn y presennol a'r dyfodol, ond mae hanes cynharach yn aml yn berthnasol.

Mae hanes byr yn helpu i roi'r mater mewn cyd-destun. Os ydych yn cynhyrchu un, byddwch yn ddetholus. Anaml iawn y bydd angen i'r Tribiwnlys wybod am bob llythyr a galwad ffôn rhwng yr ALI a'r rhieni, ond gall amseriad y digwyddiadau sy'n effeithio ar y plentyn fod yn bwysig. Er enghraifft, rhowch ddyddiadau asesiadau gan weithwyr proffesiynol, pryd y dechreuodd y plentyn fynd i'r ysgol ac wedyn pryd y gwnaeth newid ysgolion a pha mor hir yr oedd mathau penodol o ddarpariaeth wedi para.

Mae cynnydd y plentyn, neu ddiffyg cynnydd, yn aml yn fater pwysig. Wrth ystyried hyn, mae'n ddefnyddiol cael adroddiadau ar asesiadau a waned dros gyfnod o amser, adroddiadau ysgol a chynlluniau addysg unigol.

Y sefyllfa bresennol

Mae angen i'r Tribiwnlys ffurfio darlun cyfredol cywir o'r plentyn. Mae'r materion a gwmpaswyd yn dibynnu ar yr achos, ond dylent fod yn gyfoes ac yn mynd i fanylder. Gallent gynnwys:

- cyflawniadau addysgol cyfredol a chanlyniadau TASau;
- ymddygiad yn yr ysgol ac yn y cartref;
- asesiadau diweddaraf gan weithwyr proffesiynol;

- manylion y ddarpariaeth addysgol ar hyn o bryd, ac, os yw'n berthnasol, darpariaeth anaddysgol; neu
- trefniadau teithio i ac o'r ysgol.

Gallwch ddweud pa drefniadau presennol sy'n llwyddiannus a pha rai sy'n llai effeithiol. Os, am unrhyw reswm, nad yw'r plentyn mewn gwirionedd yn derbyn yr holl ddarpariaeth y mae arno ef neu hi ei hangen, rhwch fanylion.

Y rhesymau cyfreithiol am benderfyniad yr Awdurdod Lleol

Dylai datganiad achos yr Awdurdod Lleol roi rhesymau cyfreithiol clir y dibynnodd yr Awdurdod Lleol arnynt wrth wneud ei benderfyniad.

Er enghraifft, os yw'r rhieni wedi mynegi dewis am leoliad mewn ysgol a gynhelir (Deddf Addysg 1996, Atodlen 27, paragraff 3), gallai'r ALI ei wrthwynebu am un neu fwy o'r tri rheswm canlynol yn unig:

- nid yw'r lleoliad yn addas ar gyfer y plentyn,
- byddai'n effeithio ar addysg pobl eraill, neu
- byddai'n ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Rhaid i'r ALI benderfynu hyn.

Dylech ddweud pa resymau rydych yn dibynnu arnynt a pham.

Polisiau'r ALI

Bydd y Tribiwnlys yn ystyried polisiau Awdurdod Lleol os ydynt wedi'u nodi yn y dystiolaeth ysgrifenedig neu wedi'u hesbonio ar lafar. Ond ni allwch gymryd yn ganiataol y bydd penderfyniad Awdurdod Lleol a wnaed yn unol â'i bolisi o reidrwydd yn cael ei gymeradwyo gan y Tribiwnlys (pe bai'n awtomatig, ni fyddai angen Tribiwnlys). Bydd y Tribiwnlys yn ystyried polisiau lleol o ddifrif, yn enwedig os ydych yn esbonio pam eu bod yn cael eu mabwysiadu ac os nad ydynt yn gwrthdaro â chanllawiau cenedlaethol.

Ysgolion

Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gael tystiolaeth sylfaenol am unrhyw ysgol y gofynnir iddo ei hystyried. Mae angen iddo wybod:

- pa fath o ysgol ydy hi;
- faint o ddisgyblion sydd ar y gofrestr;
- faint o leoedd sy'n cael eu darparu;
- faint o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- faint sydd â datganiadau;
- pa mor fawr yw'r dosbarthiadau neu grwpiau addysgu eraill; a
- pa gymwysterau perthnasol a phrofiad sydd gan y staff.

Hefyd, mae gwybodaeth sy'n fwy uniongyrchol berthnasol i'r plentyn dan sylw. Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys wybod:

- pa gefnogaeth a gynigir;
- pa gymwysterau a phrofiad sydd gan y bobl sy'n darparu cymorth;
- pa gwricwlwm a rhaglenni addysgol fydd yn cael eu cyflenwi; a
- pha drefniadau sy'n bodoli i sicrhau bod y rhieni a'r ysgol yn cydweithredu.

Os yw lleoliad preswyl yn broblem, a yw rhesymau addysgol yn cyfiawnhau hynny a beth ydyn nhw?

- Pa bynciau neu weithgareddau ysgol y mae'r plentyn yn cael anhawster gyda nhw? A oes eraill y mae ef neu hi yn dda am eu gwneud?

- Pa gymorth arbennig y mae'r plentyn yn ei dderbyn ar hyn o bryd? A oes athro neu gynorthwydd yn ei gefnogi? Os felly, am ba hyd, ac ym mha bynciau?
- Os tynnwyd eich plentyn allan o'r dosbarth ar gyfer ei addysgu mewn grŵp bach neu i'w addysgu ar ei ben ei hun, pa bynciau a addysgir iddo a beth yw nod yr addysgu?
- Ydy'r plentyn yn defnyddio unrhyw offer arbennig?
- A oes gan y plentyn gynllun addysg unigol (CAU)? Os oes, anfonwch gopi ohono atom. Bydd copïau o gynlluniau cynharach yn ddefnyddiol hefyd.
- Beth mae'r ysgol yn ei ddweud am gynnydd y plentyn? Gallai copïau o adroddiadau ysgol, nodiadau o gyfarfodydd adolygu blynyddol a chanlyniadau TASau ein helpu.
- Faint o ddisgyblion sydd yn nosbarth y plentyn?
- Faint o oedolion sy'n edrych ar ôl y dosbarth?

Teithio i'r ysgol ac oddi yno

Er nad yw cludiant yn angen addysgol, efallai y bydd angen i ni wybod:

- yr hyn a gynigir;
- pa mor hir y bydd yn ei gymryd;
- a fydd y daith mewn tacsï neu ar drafnidiaeth gyhoeddus;
- a fydd yn gludiant gyda hebryngwr; ac
- amcangyfrif o'r gost.

Addysg gartref

Pan fwriedir addysgu'r plentyn gartref, neu yn unrhyw le ac eithrio ysgol, mae angen i ni wybod beth fydd yn cael ei ddarparu ac ym mha ffordd y bydd yn briodol. Mae'r Ddeddf Addysg yn codi cwestiwn hefyd ynghylch a fyddai'n briodol addysgu'r plentyn mewn ysgol (Deddf 1996, adran 319).

Therapi

Os cynigir therapi, a yw hyn am resymau addysgol? Beth yw natur y therapi, pwy fydd yn ei roi, beth yw cymwysterau'r person hwnnw, a ble bydd y therapi yn cael ei ddarparu a pha mor aml?

Monitro

Pwy fydd yn monitro cynnydd y plentyn a pha mor aml?

Cost

Gall cost darpariaeth fod yn bwysig. Rydym yn aml yn gorfod penderfynu a fyddai yna 'ddefnydd aneffeithlon o adnoddau' neu 'wariant cyhoeddus afresymol'. Pan fydd hyn yn debygol o fod yn fater perthnasol, dylech ddarparu ffigurau manwl ac esboniadau llawn.

Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr

Gelwir tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer datganiadau achos yn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr. Mae yna gyfyngiadau ar dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig yn hwyr.

Gallwch ofyn i banel y tribiwnlys ar ddiwrnod y gwrandawriad a ellir derbyn y dystiolaeth hwyr. Bydd panel y tribiwnlys yn ystyried eich cais ar yr amod bod:

- y ddwy ochr yn cytuno i dderbyn y dystiolaeth ysgrifenedig yn hwyr; NEU
- gallwch ddangos bod y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn bodloni'r amodau canlynol:
 - nid oedd y dystiolaeth hwyr ar gael cyn diwedd y dyddiad cau ar gyfer y datganiad achos; ac ni ellid disgwyl yn rhesymol iddi fod wedi bod ar gael; ac
 - anfonwyd copi o'r dystiolaeth hwyr at TAAAC, a'r parti arall fel ei bod yn cael ei derbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn y gwrandawriad.
 - Gall panel y tribiwnlys dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr dim ond ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y parti arall a dim ond os yw'r dystiolaeth yn annhebygol o rwystro'r gwaith o gynnal y gwrandawriad yn effeithlon
 - Os nad yw'r amodau yn cael eu bodloni, gall panel y tribiwnlys ddal I roi caniatâd i barti gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn y gwrandawriad os gellir dangos oni bai bod y dystiolaeth yn cael ei derbyn fod risg ddirifol o niwed i'r parti sy'n ceisio dibynnu arni.

Gall panel y tribiwnlys wrthod derbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

Os nad yw'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr eisoes wedi cael ei chopïo i TAAAC a'r parti arall fel ei bod yn cael ei derbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn y gwrandawriad, dylech ddod â 5 copi o'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr gyda chi i'r gwrandawriad.

Dileu

Gall yr Awdurdod Lleol wneud cais ar sail gyfyngedig i apêl gael ei dileu. Os bydd y Tribiwnlys yn dileu'r apêl bydd yn dod ag ef i ben. Yr unig reswm y gall apêl gael ei dileu yw bod yr apêl:

- yn cael ei gwneud heb fod yn unol â rheoliadau'r Tribiwnlys;
- nad yw neu nad yw bellach o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys;
- yn un nad yw'n datgelu unrhyw sail resymol;
- yn un sy'n camddefnyddio prosesau'r Tribiwnlys.

Rhaid gwneud cais i ddileu apêl yn ysgrifenedig gan nodi'r seiliau a'r rhesymau y dylid dibynnu arnynt yn llawn.

Dod i gytundeb

Mae apeliadau yn ein cyrraedd ni dim ond os yw'r rhiant yn anghytuno gyda phenderfyniad yr Awdurdod Lleol, ond mae'n briodol i drafodaethau rhwng y rhiant a'r Awdurdod Lleol barhau i ddigwydd ar ôl i apêl gael ei gwneud. Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn dweud wrthym am unrhyw rannau o'r apêl yr ydych chi a'r rhiant wedi llwyddo i'w datrys ar ôl i ni dderbyn yr apêl.

Y gwrandawriad

Byddwn yn ysgrifennu atoch, fel arfer ar ôl i ni dderbyn datganiadau achos, I adael i chi wybod y dyddiad y cynhelir y gwrandawriad.

Bydd y gwrandawriad fel arfer yn digwydd mewn gwesty ddim mwy nag ychydig oriau o bellter teithio o'r lle mae'r rhiant yn byw.

Mae gwrandawiadau fel arfer yn dechrau am 10:00 yn y bore ac yn aml yn cymryd drwy'r dydd. Dylech anelu at gyrraedd o leiaf 30 munud cyn y dylai'r gwrandawriad ddechrau.